PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Polisi Prevent

| Dyddiad | Diben ei Gyhoeddi / Disgrifiad o'r Newid | Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Cwblhawyd |
|---|---|---|
| 1 Chwefror 2016 | Cymeradwyaeth gychwynnol | 11 Chwefror 2016 |
| 30 Ionawr, 2017 | Adolygu a chymeradwyo | |
| Awst 2017 a Medi 2018 | Mân newidiadau | |
| 28 Ionawr 2019 | Adolygu ac ail-gymeradwyo | |
| 1 Mehefin 2020 | Adolygu (mewn perthynas â phandemig Covid-19) ac ail-gymeradwyo | |
| 1 Mehefin 2023 | Adolygu ac ail-gymeradwyo. Newid teitlau, diweddaru deddfau perthnasol a chyfeiriadau at awdurdodau ac egluro y gall myfyrwyr fod yn siaradwyr allanol. | Nid effeithir yn ormodol ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb |
| 1 Medi 2025 | Newid teitlau i adlewyrchu strwythurau newydd y Brifysgol | Nid effeithir yn ormodol ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb |

| Swyddog Polisi | Yr Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Campws | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Myfyrwyr ac Academaidd a'r Cofrestrydd Academaidd | Pwyllgor Cydymffurfiaeth | 25 Medi 2025 |

*Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen tair blynedd.*

## Polisi Prevent

Nod Prifysgol Bangor yw darparu amgylchedd sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi cyfraniad cadarnhaol ei holl aelodau, fel y gallant wireddu eu potensial yn llawn a chael budd a mwynhad o'u hymwneud â bywyd y Brifysgol. Mae'r gwerthoedd hyn wedi eu hymgorffori hefyd yng Nghynllun Strategol y Brifysgol.

I gyrraedd y nod, mae'r Brifysgol yn cydnabod bod gan ei holl aelodau a darpar aelodau yr hawliau sylfaenol isod:

- Cael eu trin ag urddas a pharch
- Cael eu trin yn deg
- Cael eu hannog i wireddu eu posibiliadau'n llawn

**1. Rhagarweiniad**

*[a]* *Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 / Y Ddyletswydd Prevent/* Deddf Terfysgaeth (Diogelu Eiddo) 2025

Mae'r Ddyletswydd 'Prevent' yn rhan o'r strategaeth wrthderfysgaeth gyffredinol a elwir yn CONTEST[1]. Nod y Ddyletswydd 'Prevent' yw lleihau bygythiad terfysgaeth i'r Deyrnas Unedig drwy atal pobl rhag mynd yn derfysgwyr, neu gefnogi gweithgarwch terfysgol.

Roedd Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 ("y Ddeddf") yn cynnwys y gofyniad a nodwyd uchod sef yr angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau penodol (yn cynnwys prifysgolion) i roi ystyriaeth briodol i'r angen i atal pobl rhag cael eu tynnu i mewn i derfysgaeth.

Mae Deddf Terfysgaeth (Diogelu Eiddo) 2025 yn cyflwyno gofynion deddfwriaethol ychwanegol ynghylch lleoliadau a digwyddiadau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau penodedig (gan gynnwys prifysgolion) i "roi mesurau diogelu'r cyhoedd priodol ar waith, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, i leihau pa mor agored ydynt i ymosodiadau terfysgol a'r risg o niwed corfforol pe bai un yn digwydd".

*[b]* *Cyd-destun*

Mae'r Polisi hwn yn amlinellu dull gweithredu Prifysgol Bangor i sicrhau y cydymffurfir â gofynion Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 a'r Ddyletswydd Prevent, a'i ffordd o ymdrin â phryderon a godir yn ei chymuned, a'i chyfraniad i unrhyw ymateb amlasiantaethol i bryderon a godir. Bydd dull rhagweithiol o ymdrin â'r Ddyletswydd Prevent yn cyfrannu at ofynion statudol Deddf Terfysgaeth (Diogelu Eiddo) (2025)

**2. Cwmpas**

Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i'r holl unigolion a ddaw i gysylltiad â Phrifysgol Bangor yn cynnwys y canlynol ond nid yn gyfyngedig iddynt, sef myfyrwyr a staff Prifysgol Bangor, siaradwyr allanol [2]

(ar y campws, mewn digwyddiadau sy'n arddel brand y brifysgol oddi ar y campws, a digwyddiadau a gynhelir ar-lein sy'n arddel brand y brifysgol), cyfarwyddwyr a swyddi er anrhydedd, yn ogystal â chlybiau, cymdeithasau, cynrychiolwyr cwrs, gwirfoddolwyr a swyddogion sabothol Undeb Myfyrwyr Bangor ac Aelodau'r Cyngor.

---

1 Contest 3.0 Mehefin 2018 https://www.gov.uk/government/publications/counter-terrorism-strategy-contest-2018

2 Mae 'Siaradwyr Allanol' yn cynnwys unrhyw aelod o staff neu fyfyriwr Prifysgol Bangor sy'n siarad ar ran grŵp allanol, a/neu unrhyw un a wahoddir i draddodi darlith, neu i roi anerchiad neu i gymryd rhan mewn trafodaeth banel. Mae hefyd yn cynnwys recordio neu ffrydio siaradwyr yn glyweledol, neu ddangos ffilm a fwriedir i hyrwyddo safbwynt penodol.

## 3. Dull Gweithredu

Fel rhan o'i chyfrifoldebau bydd Prifysgol Bangor yn cynnal asesiad risg sy'n gymesur â maint, cymhlethdod a chyd-destun diwylliannol y sefydliad. Bydd yr asesiad risg yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle i helpu i nodi a chefnogi unigolion a all fod yn agored i niwed a hefyd i oruchwylio rheolaeth glir o'r gofynion. Caiff yr asesiad risg ei adolygu'n rheolaidd a'i ddiweddaru, lle bo'r angen.

[a] <u>Nodi a Chefnogi</u>

Mae'r Brifysgol yn ceisio nodi unigolion yn ei chymuned sy'n agored i niwed yn gynnar, boed yn staff neu'n fyfyrwyr, a sicrhau y rhoddir y gefnogaeth a'r darpariaethau lles priodol iddynt. Bydd cyfrifoldebau'r Brifysgol o dan y Ddeddf yn cael eu rheoli i ddechrau trwy drefniadau diogelu presennol a nodir yn y Polisi hwn, a hefyd o fewn *Polisi Diogelu*'r Brifysgol, ac fel yr amlinellir yn y siart llif yn Atodiad 1 i'r Polisi hwn.

[b] <u>Atgyfeirio</u>

Gall unrhyw aelod staff, neu fyfyriwr nodi pryderon am aelodau eraill o'r staff neu fyfyrwyr sy'n agored i'r risg o gael eu tynnu i eithafiaeth dreisgar, yn seiliedig ar wybodaeth y maent wedi'i derbyn neu ymddygiad y maent hwy neu unigolyn arall wedi'i weld.

Mae'r Brifysgol o'r farn ei bod yn bwysig i'r pryderon hynny gael eu rhannu mewn amgylchedd diogel a chefnogol, lle gellir cynnig ymyriad priodol, os bydd angen.

Gall aelod staff neu fyfyriwr gyfeirio pryderon sydd ganddynt am unigolyn mewn sawl ffordd. Oni bai bod bygythiad uniongyrchol (i fywyd neu berygl o niwed) awgrymir y dylid cyfeirio pryderon yn y lle cyntaf at y darpariaethau mewnol priodol o ran diogelu a lles naill ai yn yr adran Adnoddau Dynol (staff) neu yn y Gwasanaethau Llesiant a Chefnogi Myfyrwyr.

Lle bo darpariaethau diogelu a lles sydd eisoes yn bodoli wedi eu cynnig, a/neu bod pryder yn parhau am unigolyn, neu lle bo cymaint o bryder nes y gellir cyfiawnhau cyfeirio'r mater ymlaen ar unwaith at sefydliad allanol, bydd y weithdrefn ganlynol yn berthnasol:-

i. Dylai'r pryder gael ei godi i ddechrau gydag aelod priodol o staff yn Ysgol neu Adran yr unigolyn e.e. Pennaeth Ysgol, rheolwr llinell, uwch diwtor ac ati a ddylai drafod y mater gyda'r unigolyn sy'n rhoi gwybod am y pryder. Bydd yr aelod staff sy'n derbyn y pryder, yn ei dro, yn rhoi gwybod i Gydlynydd Prevent y Brifysgol[3] neu i'w Dirprwy[4] yn eu habsenoldeb.

   Bydd Cydlynydd Prevent y Brifysgol yn trafod y pryder gyda'r aelod staff sy'n rhoi gwybod ac yna bydd yn cynnull y Panel Atgyfeirio fel yr amlinellir yn Atodiad 1 isod. Mae'n bosibl y bydd achlysuron pan fydd Cydlynydd Prevent y Brifysgol yn penderfynu

3 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Campws
4 Dirprwy Gofrestrydd Academaidd: Ansawdd a Safonau

bod cymaint o bryder neu risg nes y gellir gwneud atgyfeiriad ar unwaith i'r broses 'Channel' heb gynnull panel atgyfeirio.

ii. Bydd y Panel Atgyfeirio pan gaiff ei gynnull yn ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael ac yn penderfynu a yw'r unigolyn yn cael ei atgyfeirio i'r broses 'Channel' (a hwylusir gan Heddlu Gogledd Cymru / Heddlu Gwrthderfysgaeth a'r Awdurdod Lleol perthnasol) neu'n cael ei atgyfeirio i dderbyn cefnogaeth bellach gan y sefydliad o ran diogelu / llesiant.

iii. Bydd Cydlynydd Prevent y Brifysgol yn atgyfeirio'r achos i'r asiantaeth statudol briodol.

iv. Bydd Cydlynydd Prevent y Brifysgol yn cynrychioli'r Brifysgol mewn cyfarfodydd amlasiantaethol / cyfarfodydd 'Channel', ym mha bynnag fformat y cânt eu cynnal, naill ai yn y cnawd neu'n rhithiol, mewn perthynas â'r atgyfeiriad.

v. <u>Atgyfeirio tu allan i oriau</u>: os bydd angen nodi pryder y tu allan i oriau swyddfa arferol, dylid ei godi yn y lle cyntaf gydag adran ddiogelwch y Brifysgol sydd ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn ar (01248) 382795. Dylai'r adran ddiogelwch wedyn godi'r pryder gyda Chydlynydd Prevent y Brifysgol.

**Os oes pryder uniongyrchol o berygl i fywyd neu berygl o niwed, y drefn atgyfeirio gywir yw ffonio 999 ac yna rhoi gwybod i Gydlynydd Prevent y Brifysgol cyn gynted ag y bo modd.**

## 4. Rhannu Gwybodaeth

Wrth ddilyn y weithdrefn a amlinellir yn Adran 3[b] uchod, a hefyd yn Atodiad 1 gall fod achosion lle mae'r Brifysgol yn ddigon pryderus am les unigolyn fel bod rhaid rhannu'r pryderon hyn gydag asiantaethau allanol. Gall hyn gynnwys atgyfeirio i'r broses '*Channel*', a/neu gyfeirio i Heddlu Gogledd Cymru (o dan delerau'r Cytundeb Rhannu Gwybodaeth).

Wrth ddod i benderfyniad ar rannu gwybodaeth gyda thrydydd partïon (fel yn Adran 3[b] uchod) bydd y Brifysgol yn cadw at ei Pholisi Diogelu Data, at ofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, at Ddeddf Diogelu Data 2018, a'r egwyddorion a geir ynddynt. Caiff cofnodion cyfrinachol am y wybodaeth a rennir eu cadw gan Gydlynydd Prevent y Brifysgol yn y Swyddfa Gyfreithiol a Chydymffurfio, yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018.

Caiff ceisiadau gan yr heddlu / gwasanaethau diogelwch am unigolion ym Mhrifysgol Bangor eu trin gan y Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio yn unol â gofynion deddfwriaethol cyfredol a pholisïau'r Brifysgol.

Ym mhob achos bydd rheidrwydd, cymesuredd, risg a lle bynnag y bo'n bosibl cydsyniad yr unigolyn, yn allweddol wrth benderfynu a fydd gwybodaeth yn cael ei rhannu ai peidio.

## 5. Hyfforddiant

Bydd y Brifysgol yn sicrhau y cynigir hyfforddiant priodol ac ymwybyddiaeth i staff ar bob lefel yn y Brifysgol. Caiff hyfforddiant ei gynnig wyneb yn wyneb a thrwy fodiwl e-ddysgu'r brifysgol sydd ar gael i'r holl staff ar *Blackboard*. Yn benodol, awgrymir bod gofyn i staff yn y gwasanaethau canlynol gael hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddyletswydd Prevent:-

- Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfio;
- Adnoddau Dynol;
- Y Ganolfan Addysg Ryngwladol;
- Gwasanaethau Myfyrwyr, ac yn arbennig ymgynghorwyr iechyd meddwl a chwnselwyr;
- Gwasanaethau Campws, ac yn arbennig yr adran ddiogelwch;
- Staff Llety, ac yn benodol uwch wardeiniaid a wardeiniaid-fyfyrwyr)
- Staff Cynadledda
- (
- Uwch Diwtoriaid a thiwtoriaid personol;
- Gweinyddwyr colegau ac ysgolion academaidd.

Dylid annog pob aelod arall o staff o fewn gwasanaethau proffesiynol ac ysgolion academaidd i gael hyfforddiant, ac mae rheolwyr llinell yn gyfrifol am sicrhau bod eu holl staff yn ymwybodol o'r Ddyletswydd Prevent a'r dulliau atgyfeirio er mwyn codi pryderon. Dylid annog staff hefyd i gael hyfforddiant bob tair blynedd er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf. Bydd nodyn o bresenoldeb staff ar hyfforddiant Prevent yn cael ei gadw yn y system *Agresso*.

**6. Deunydd Ymchwil sy'n Sensitif o ran Diogelwch**

Yn dilyn cyhoeddi'r ddogfen "Oversight of Security Sensitive Research Material" (UUK 2012) mae'r Brifysgol wedi sefydlu *Gweithdrefn ar gyfer Cymeradwyo a Chofrestru Projectau Ymchwil Sensitif*[5] er mwyn casglu a chadw manylion am ymchwil sydd naill ai'n [a] sensitif o ran diogelwch neu [b] gyda'r potensial i niweidio enw da'r Brifysgol.

Mae diweddariad o'r canllawiau yn 2019 hefyd yn amlygu;

Mae Adran 58 o Ddeddf Terfysgaeth 2000 yn ei gwneud yn drosedd os yw person yn 'collects or makes a record of information of a kind likely to be useful to a person committing or preparing an act of terrorism.' Cyflwynodd addasiad yn sgil Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch y Ffin 2019 hefyd y drosedd o wylio neu gael mynediad fel arall drwy'r rhyngrwyd at ddogfennau neu gofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n debygol o fod yn ddefnyddiol i berson sy'n cyflawni neu'n paratoi gweithred o derfysgaeth. Mae amddiffyniad os defnyddir y wybodaeth at ddibenion ymchwil academaidd.

Mae adrannau 2 a 3 Deddf Terfysgaeth 2006 yn gwahardd lledaenu cyhoeddiadau terfysgol, gan gynnwys trwy ddulliau electronig, ac yn rhoi diffiniad eang iawn o gyhoeddiad terfysgol a datganiadau' y gellid eu dehongli fel rhai sy'n annog neu'n ysgogi rhywrai i gyflawni, paratoi neu'r ddechrau gweithredoedd terfysgol. Mae adran 2 Deddf Terfysgaeth 2006 wedi'i diwygio gan adrannau 5(6) a 5(7) Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch y Ffin 2019. Nid yw ymchwil academaidd yn amddiffyniad o dan Ddeddf Terfysgaeth 2006.

[5] Ar gael ar wefan y Brifysgol

Mae adran 26(1) Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau penodedig, wrth arfer eu swyddogaethau, i roi sylw dyledus i atal pobl rhag cael eu denu at derfysgaeth. Gelwir y ddyletswydd honno hefyd yn 'Prevent'.

Caiff y broses hon ei goruchwylio gan Bwyllgor Moeseg y Brifysgol a'i rheoli o ddydd i ddydd gan yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil.

**7. Cysylltiadau â Pholisïau a Gweithdrefnau Eraill**

Mae'r polisi hwn wedi'i gysylltu'n agos â pholisïau a gweithdrefnau eraill yn y Brifysgol. Yn benodol:

– Y *Cod Ymarfer ar Ryddid i Lefaru* sy'n cynnwys proses i gymeradwyo siaradwyr allanol. Bydd y Pwyllgor Cydymffurfiaeth yn rheoli gofynion y Cod Ymarfer a bydd y Cofrestrydd Academaidd yn goruchwylio rheolaeth ystafelloedd ffydd y Brifysgol.

– Y *Rheoliadau Defnydd Derbyniol* sydd hefyd yn cynnwys cyfeiriad at ofynion Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.

– Y *Polisi Diogelu* sy'n amlinellu gweithdrefnau'r Brifysgol wrth ymdrin â materion diogelu.

**8. Cwynion**

Bydd y Ysgrifennydd y Brifysgol (neu enwebai) yn cydlynu unrhyw gŵynion a dderbynnir yng nghyd-destun y polisi hwn.


- Dylid darparu'r gŵyn yn ysgrifenedig i cwynion@bangor.ac.uk. Cydnabyddir derbyn y gŵyn o fewn 5 diwrnod gwaith, a gwneir pob ymdrech i gynnig ateb mwy cynhwysfawr o fewn 10 diwrnod gwaith.

- Os nad yw'r achwynydd yn fodlon â'r ateb, yna gall ddwysáu'r gŵyn. Dylent gysylltu â cwynion@bangor.ac.uk o fewn 15 diwrnod gwaith, gan esbonio pam eu bod yn parhau'n anfodlon. Yna eir ati i ymdrin â'r gŵyn yn unol â gweithdrefn gŵynion y Brifysgol fel bo'n briodol.

Ar gyfer cwynion sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â Prevent yn unig, os yw achwynwyr yn anfodlon â chanlyniad y Weithdrefn Gŵynion gallant gysylltu â Medr - Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, y dirprwywyd cyfrifoldeb iddynt gan yr Ysgrifennydd Cartref i fonitro cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd Prevent mewn perthynas â'r darparwyr addysg uwch perthnasol yng Nghymru:

Medr,
2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ
gwybodaeth@medr.cymru

# Gweithdrefn Rhannu Gwybodaeth: Myfyriwr neu Aelod o Staff sy'n Agored i Niwed



**Atodiad 2**

## Panel Atgyfeirio Dyletswydd Prevent
## Prifysgol Bangor

**Aelodau Craidd**

Cadeirydd - Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Myfyrwyr ac
Academaidd a'r Cofrestrydd Academaidd
Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
Dirprwy i'r Is-ganghellor
Cydlynydd Prevent y Brifysgol neu'r Dirprwy

*Yn ogystal, dylid gwahodd un neu fwy o'r canlynol*

**Atgyfeirio Myfyriwr**

Cyfarwyddwr, Llywydd
Undeb y Myfyrwyr, Undeb
y Myfyrwyr

**Atgyfeirio Staff**

Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol
(Gweithrediadau)

**Cylch Gorchwyl**

1. Bydd y Panel Atgyfeirio Dyletswydd Prevent (y Panel) yn cael ei alw gan Gydlynydd Prevent y Brifysgol mewn ymateb i bryder a godwyd mewn perthynas ag unigolyn a all fod mewn risg o gael ei dynnu i mewn i derfysgaeth dreisgar.

2. Bydd y Panel yn cynnwys yr unigolyn a nodir uchod (fel bo'n briodol), ond gall y Cadeirydd ofyn i aelodau perthnasol eraill o'r staff fod yn bresennol yn y cyfarfod, fel bo'n briodol, i gynnig gwybodaeth bellach a/neu gyngor.

3. Caiff y Panel ei gynnull fesul achos a bydd yn penderfynu a yw achos unigol yn cael ei atgyfeirio at asiantaeth allanol i gael cefnogaeth bellach, ei atgyfeirio i broses y Panel 'Channel', neu ei atgyfeirio yn ôl at ddarpariaethau llesiant a diogelu presennol yn y Brifysgol.

4. Darperir adroddiadau o gyfarfodydd y Panel i'r Grŵp Tasg Cydymffurfio, at ddibenion monitro, yn ei gyfarfod nesaf.

5. Pan fo pryder yn ddifrifol gellir gwneud atgyfeiriad i'r awdurdodau ar unwaith, y tu allan i Banel Atgyfeirio'r Ddyletswydd Prevent, yn enwedig os penderfynir bod risg sylweddol o niwed yn bodoli.